



**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**  
Gwasanaeth Cymdogaeth, Cynllunio a Diogelu'r  
Cyhoedd

**Adroddiad ar Gynnydd Ansawdd Aer 2021**

I gyflawni Rhan IV Deddf yr Amgylchedd 1995  
Rheoli Ansawdd Aer Lleol

**Dyddiad (Hydref 2021)**

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

<b>Swyddog Awdurdod Lleol</b>	Peter Oates
<b>Adran</b>	Gwasanaeth Cymdogaeth, Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
<b>Cyfeiriad</b>	Tŷ Blaen Torfaen, Panteg Way, Y Dafarn Newydd, Pont-y-pŵl, Torfaen, NP4 0LS
<b>Rhif ffôn</b>	01633 647290
<b>E-bost</b>	peter.oates@torfaen.gov.uk
<b>Cyfeirnod yr Adroddiad</b>	TCBC PR 2021
<b>Dyddiad</b>	Hydref 2021

## Crynodeb Gweithredol: Ansawdd Aer yn Ein Hardal

### Ansawdd Aer yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae llygredd aer yn deillio o gyflwyno ystod o sylweddau i'r atmosffer o amrywiaeth eang o ffynonellau. Gall achosi effeithiau tymor byr a thymor hir ar iechyd, ond hefyd ar yr amgylchedd ehangach. Mae ansawdd yr aer yng Nghymru yn gyffredinol, yn well nawr nag y mae wedi bod ar unrhyw adeg ers cyn y Chwyldro Diwydiannol.

Cyflawnwyd y gwelliannau hyn drwy gyflwyno deddfwriaeth yn gorfodi rheolaethau llymach ar allyriadau llygryddion o ffynonellau allweddol, yn enwedig diwydiant, llosgi domestig a thrafnidiaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau a wnaed, mae llygredd aer dal i fod yn cael ei gydnabod fel perygl i iechyd, ac mae llawer o bobl yn bryderus am y llygredd yn yr aer y maent yn ei anadlu.

Mae ystadegau'r Llywodraeth yn amcangyfrif bod llygredd aer yn y DU yn gostwng disgwyliad oes pob person 7–8 mis ar gyfartaledd, gyda chost gysylltiedig o hyd at £20 biliwn y flwyddyn. Mae Deddfwriaeth a Pholisiau sy'n anelu at leihau ac olrhain ymhellach effaith llygredd aer ar iechyd a'r amgylchedd wedi'u cyflwyno yn Ewrop, y DU ac yng Nghymru.<sup>1</sup>

Gellir datgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA) pan fydd lefel yn mynd yn uwch nag amcan ansawdd aer neu os yw'n debygol o fynd yn uwch nag amcan ansawdd aer. Datgelodd canlyniadau monitro tiwbiau tryledu 2019 fod un tiwb wedi mynd yn groes i'r amcan cenedlaethol, sef  $40 \mu\text{g}/\text{m}^3$  ar  $47 \mu\text{g}/\text{m}^3$ . Penderfynodd yr awdurdod lleol bod angen mwy o wybodaeth er mwyn sefydlu maint gofodol unrhyw achos posibl o dorri'r Amcan Cenedlaethol cyn symud ymlaen i ddatgan ARhAA. Yn 2020, fe wnaeth hyn arwain at osod 4 tiwb ychwanegol ac adleoli 2 diwb darlleniad isel i'r gogledd a'r de o'r ffigur gormodol, gwreiddiol. Bydd canlyniadau'r tiwbiau hyn yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad cynnydd hwn.

Mae Torfaen yn monitro osôn, gronynnau ac ocsidau nitrogen yn barhaus ar safle cefndir trefol awtomatig yn ysgol gyfun Croesyceiliog ac yn 2020 fe ddefnyddiodd 25 o diwbiau tryledu i fonitro nitrogen deuocsid ar draws y fwrdeistref. Cafodd y safle awtomatig ei gau yn ystod mis Medi 2021 oherwydd bod hen ran yr ysgol yn cael ei dymchwel. Yna symudwyd gorsaf y safle ei hun 50 metr i'r Gogledd ar slab concrit newydd â ffens balisâd newydd a'i hailenwi o 'Cwmbrân' i 'Cwmbrân Crownbridge'.

Yn 2021 dechreuodd Torfaen astudiaeth gydleoli ar gyfer nitrogen deuocsid ar y safle Cefndir Trefol. Roedd hyn yn golygu gosod 3 thiwb tryledu yn agos at y monitor parhaus. Yna gellir cymharu canlyniadau'r gwahanol fathau o fonitro a chyfrifo addasiadau tuedd. Gellir defnyddio'r addasiadau tuedd hyn wrth gyfrifo canlyniadau tiwbiau tryledu ar gyfer adroddiad 2022.

Mae data monitro yn dangos bod tuedd gefndirol gronynnau dros y 4 blynedd ddiwethaf ychydig yn is er bod y duedd hirdymor dros y 16 blynedd flaenorol yn ymddangos yn eithaf sefydlog. Mae nitrogen deuocsid cefndirol wedi aros yn eithaf sefydlog ers 2006.

Mae data 2020 yn dangos gostyngiad sylweddol mewn crynodiadau Nitrogen Deuocsid traffig ar ochr y ffordd. Digwyddodd y gostyngiadau mwyaf arwyddocaol o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol yn ystod cyfnodau clo'r pandemig cyntaf yn 2020. Mae'r gwahaniaethau rhwng crynodiadau 2019 a 2020 oherwydd y pandemig yn cael eu harchwilio yn Atodiad F.

Nid yw canlyniadau monitro 2020 yn dangos unrhyw dystiolaeth o fod yn uwch nag unrhyw un o'r Amcanion Cenedlaethol.

[<sup>1</sup>Gwefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru](#)

### Camau i Wella Ansawdd Aer

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen eto wedi datgan unrhyw ARhAA ac fel y trafodwyd uchod, mae wrthi'n casglu data ar hyn o bryd ar faint un man a allai fod yn broblem yn set data 2019. Nid yw canlyniadau 2020 ar gyfer y maes hwn wedi rhagori ar yr amcanion cenedlaethol, fodd bynnag, ystyrir bod y canlyniadau hyn yn anarferol oherwydd bod llai o draffig yn ystod cyfnodau clo pandemig 2020. Bydd y gwahaniaeth hyn yn set ddata 2020 yn cael eu trafod ymhellach yn yr adroddiad hwn.

Mae gan weddill y fwrdeistref yn gyffredinol lefelau llygredd traffig isel. Mae'r Cyngor hefyd yn ceisio cynnal a gwella ansawdd presennol yr aer a fwynheir gan y trigolion drwy berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau allanol, craffu manwl lechyd Cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, a allai fod yn niweidiol i ansawdd aer, monitro cyfyngiadau allyriad Trwydded Amgylcheddol ynghyd â rheoleiddio a gorfodi Deddf Niwsans Statudol ac Aer Glân.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gweithio gyda diwydiant lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru drwy'r drefn Caniatâd Amgylcheddol i helpu i reoli ansawdd aer. Mae'r Cyngor yn chwarae rôl actif ar fforwm Ansawdd Aer Cymru ac yn cymryd rhan yn y diwrnod hyrwyddo Aer Glân, a gynhelir yn flynyddol.

Mae'r tîm lechyd Cyhoeddus yn delio gyda chwynion o losgi sy'n peri niwsans, mwg tywyll a du ac yn rhoi cyngor ar danwydd priodol ar gyfer offer llosgi coed domestig. Mae'r Cyngor hefyd yn chwarae rhan mewn nifer o gynlluniau i wella seilwaith gwyrdd, i hybu teithio llesol a gwella'r llwybrau teithio llesol yn y fwrdeistref.

### Blaenoriaethau a Heriau Lleol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn awyddus i gynyddu ei ddealltwriaeth o ansawdd yr aer yn y fwrdeistref ac felly yn 2018 fe wnaethom gynyddu nifer y tiwbiau tryledu a ddefnyddir bob mis i 20. Adroddwyd canlyniadau'r tiwbiau ychwanegol yn adroddiad cynnydd 2019. Yn 2019, cafwyd adolygiad ychwanegol o'r rhwydwaith tiwbiau tryledu. Arweiniodd hyn at gael gwared ar bum safle a oedd yn gyson wedi dangos lefelau isel o lygredd ar gyfartaledd. Symudwyd y tiwbiau hynny i 5 safle newydd a adnabwyd fel rhai a allai elwa o waith monitro oherwydd eu bod naill ai yn lleoliadau o fewn Ardaloedd Cynllunio Blaenoriaeth Gweithredu ar Sŵn neu'n ardaloedd lle amheuwyd bod allyriad uwch na'r safleoedd a derfynwyd. Bydd canlyniadau ail flwyddyn y pum safle newydd dan sylw yn ymddangos yn yr adroddiad cynnydd hwn. Yn 2020, cafodd y rhwydwaith tiwbiau tryledi ei adolygu a'i ehangu eto. Roedd hyn yn golygu gosod 4 tiwb ychwanegol ac adleoli 2 safle darlleniad isel, arall. Bydd canlyniadau'r flwyddyn gyntaf o'r safleoedd hyn yn ymddangos yn yr adroddiad cynnydd hwn.

Yn 2020, cafodd yr orsaf fonitro barhaus ar dir ysgol uwchradd Croesyceiliog ei chau dros dro. Y rheswm am hyn oedd oherwydd bod ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar y safle fel rhan o brosiect ysgolion yr 21ain ganrif. Unwaith y cafodd y datblygiad ei gwblhau, ac ar ôl dymchwel yr hen ysgol, adleoliwyd yr orsaf tua 50 metr o'r safle blaenorol a chafodd ei ailenwi yn *Cwmbrân Crownbridge*.

Daeth safle gwreiddiol Cwmbrân i ben ar 6 Awst 2020 a dechreuodd safle *Cwmbrân Crownbridge* ar 1 Hydref 2021. Gohiriwyd y monitro am gyfanswm o 55 diwrnod. Arweiniodd hyn, ynghyd â materion yn ymwneud â chynnal a chadw'r monitorau yn

ystod y symud, at ostyngiad yn y data a gasglwyd o ryw 25% ar gyfer PM<sub>10</sub> A 15% o ran NO<sub>2</sub>.

Ym mis Ebrill 2021, dechreuodd Torfaen astudiaeth gydleoli ar gyfer nitrogen deuocsid ar safle *Cwmbrân Crownbridge*, a bydd y ffigurau addasu tuedd a gyflawnwyd o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r cyfartaleddau blynyddol yn yr adroddiad cynnydd nesaf.

### Sut i Gymryd Rhan

Mae gwybodaeth bellach ar ansawdd aer yn ardal Torfaen ac yn gyffredinol i'w chael drwy fynd i adran ansawdd aer ein gwefan yma;

[Gwefan Cyngor Torfaen \(adran llygredd\)](#)

Drwy fynd i wefan ansawdd aer Llywodraeth Cymru yma:

[Safle Cwmbrân ar Wefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru](#)

[Gwefan Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru](#)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, gallwch gysylltu â'r tîm Iechyd Cyhoeddus drwy e-bost;

[public.health@torfaen.gov.uk](mailto:public.health@torfaen.gov.uk)

Neu, fel arall, rhowch alwad i ni ar 01495 762200.

Ceir adroddiadau blaenorol a chyfieithiadau Cymraeg o Gynodebau Gweithredol ar wefan [Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#)